Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod**

---

**Menywod, Amrywiaeth a'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) – Gwelliannau**

**Noddir gan Siân Gwenllian AS a Suzy Davies AS**
**18 Mehefin 2020**
**Zoom**

***Yn bresennol:***
*Siân Gwenllian AS*
*Hilary Watson, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru*
*Jackie Jones, Menywod yn Ewrop (Cymru) (Siaradwr)*
*Y Cynghorydd Mary Sherwood (Siaradwr)*
*Leena Farhat (Siaradwr)*
*Yr Athro Sarah Childs (Siaradwr)*
*Mia Rees, swyddfa Suzy Davies AS*
*Ele Hicks, Diverse Cymru*
*Leigh Ingham, Plan International UK*
*Katerina Stivasari-Jones, ymgynghorydd/mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod*
*Lori Frat, mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod*
*Rhian A Davies, Theatr Genedlaethol Cymru*
*Liz Hill O'Shea, mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod*
*Patience Bentu, Race Council Cymru*
*Sioned Jones, swyddfa Siân Gwenllian AS*
*Katie Cooke*
*Emma Wilde, mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod*
*Toni Beardmore*
*Sara Kirkpatrick, Cymorth i Fenywod Cymru*
*Beth Thomas, The Big Issue*
*Helen Parfitt, swyddfa Helen Mary Jones AS*
*Diana Stirbu, Prifysgol Fetropolitan Llundain*
*Deborah Shaffer, Triniaeth Deg i Fenywod Cymru*

***Ymddiheuriadau:***
*Suzy Davies AS*
*Catherine Fookes, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru*
*Maria Constanza Mesa, Women Connect First*
*Alison Parken, Ysgol Fusnes Caerdydd*
*Rachel Minto, Prifysgol Caerdydd*
*Delyth Jewell AS*
*Mike Hedges AS*
*Helen Mary Jones AS*
*Llyr Gruffydd AS*
*Angela Burns AS*
*Jess Williams, mentorai Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod*
*Nia Thomas, ERS Cymru*

*Jane Fenton-May, Cynulliad Merched Cymru*
*Sarah Rees, swyddfa Bethan Sayed AS*
*Sophie Weeks, mentorai Rhwydwaith*
*Cydraddoldeb Menywod*
*Abbie Winsor, Prifysgol Aberystwyth*
*Polly Winn, Chwarae Teg*

| **Cofnodion** |
|---|
| Croesawodd cadeirydd y cyfarfod, Siân Gwenllian AS, y rhai oedd yn bresennol a rhoddodd wybod i'r grŵp fod Suzy Davies AS yn ymddiheuro.<br><br>▪ Rhestrwyd y rhai oedd yn bresennol a'r ymddiheuriadau gan Hilary Watson |
| **Jackie Jones – diweddariad gan Fenywod yn Ewrop (Cymru)**<br><br>▪ 14 diwrnod ar ôl i ofyn am estyniad i'r cyfnod pontio Brexit. Pwysig i hawliau menywod mewn perthynas â hawliau'r UE<br><br>▪ Lobi Merched Ewrop: Gofyn i 50% o unrhyw gronfeydd adfer o COVID-19 o gyllideb yr UE gael ei wario ar fenywod a merched. Efallai y gall sefydliadau ystyried mabwysiadu polisi tebyg – cydnabod cyfraniad menywod a merched yn ystod y pandemig.<br><br>▪ Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddyfodol Ewrop – Ewrop (nid yr UE yn unig) Gwahanol gynadleddau yn cael eu cynnal: cynadleddau Ewropeaidd i benderfynu sut olwg fydd ar yr UE ac Ewrop. Unigolion a sefydliadau yn cymryd rhan. Dylai'r grŵp ofyn i Lywodraeth Cymru gymryd rhan ynddynt.<br><br>*Gellir anfon unrhyw gwestiynau drwy e-bost at Jackie Jones – cysylltwch â* hilary@wenwales.org.uk *i gael eich rhoi mewn cysylltiad.* |
| **Merched, Amrywiaeth a'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau – Gwelliannau – Y cadeiryddion yn rhoi cyd-destun i'r bil a thrafodaeth**<br><br>**1) Y Cynghorydd Mary Sherwood** – Cynghorydd sy'n rhannu swydd ar gyfer Llafur Cymru yng Nghyngor Abertawe<br><br>▪ *Papur Mary Sherwood, a gyflwynwyd yn flaenorol,* Job-Sharing Cabinet Positions in Swansea: Report to the Senedd Equalities, Local Government & Communities Committee "Diversity in Local Government" *i'w anfon at bawb: mae'n crynhoi dwy flynedd gyntaf rhannu swydd fel cynghorydd.* |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

- *Mae Abertawe wedi arloesi o ran rhannu swyddi cabinet. Ar gyfer rôl cynghorydd lleol – sy’n rôl ran-amser – ni fyddai rhannu swydd yn gwneud synnwyr gan ei fod yn cael ei wneud am hanner y tâl sydd ar gael. Mae rôl ar y cabinet yn wahanol. Y gwir yw y gall fod yn rôl gydag amrywiaeth ddiddiwedd o gyfrifoldebau felly rhaid i chi bennu ffiniau o ran yr hyn rydych yn barod i'w wneud. Lle mae gwahanol amgylcheddau swyddfa yn addasu i weithwyr rhan-amser, yn y cyd-destun gwleidyddol nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn gweithio'n rhan-amser ac ni all eich partner rhannu swydd o reidrwydd gyflenwi drosoch chi oherwydd cyfrifoldeb gwleidyddol.*

- *Mae'n rhaid dangos arweinyddiaeth wleidyddol gyda chyfrifoldeb unigol – heb danseilio eich gilydd. Y brif broblem yw nad oes canllawiau ar gyfer oriau amser llawn, heb sôn am rannu swyddi. Yn y pen draw maent yn cymryd rhan yn amser llawn ond am hanner y tâl.*

- *Mae’r Bil yn nodi’n benodol nifer y bobl y gallwch eu cael yn y cabinet. Mae’n atgyfnerthu natur ‘benodol’ rhannu swyddi. Mae cabinetau sy'n cyfyngu ar nifer y cyfleoedd rhannu swyddi yn gwneud rhannu swyddi yn rhywbeth 'neilltuol'. Hoffai Mary weld hynny’n newid. Ni fydd swyddi’n cael eu rhannu ar gyfer portffolios sy'n cael eu hystyried yn 'bwysig iawn'. Y meysydd sy'n cael eu hystyried i fod 'o ddiddordeb' i fenywod neu grwpiau lleiafrifol fyddai’r swyddi cabinet sy’n cael eu rhannu.*

- *Am y ddwy flynedd ddiwethaf, bu pedwar unigolyn yn rhannu swyddi yng nghabinet Abertawe. Dim ond 1 o’r 4 oedd yn fenyw. Dynion ifanc yw'r tri arall, gan nad ydyn nhw am roi'r gorau i'w swyddi – ond nid yw hyn yn denu mwy o fenywod, pobl ag anableddau na grwpiau eraill.*

- *Yn y bôn, mae angen i ni roi mwy o sylw i’r diwylliant gweithio cyfan mewn rolau gwleidyddol a mynd i'r afael â sut mae camu ymlaen i swydd wleidyddol yn golygu bod y cyhoedd yn eich gweld chi fel rhywun i ymosod arno, nad ydych chi byth oddi ar ddyletswydd, ac rydych yn agored i gael eich cam-drin. Pam ddylai gwleidyddiaeth fod i bobl groengaled yn unig? Pobl freintiedig sydd â bywydau hawdd yw'r rhai sy'n debygol o fod yn groengaled. Gall y rhai gwydn fod yn groengaled ond gallant hefyd fod yn flinedig.*

- *Thema gysylltiedig – ym myd gwleidyddiaeth, rydym yn cael ein hannog i ddychmygu’r person gorau ar gyfer swydd. Mae'n ymddangos bod pobl o’r farn bod cwotâu ac ati yn rhwystro penodi’r 'person gorau ar gyfer swydd'. Mae'r agwedd hon yn esgor ar orhyder. Mae polisi effeithiol yn cael ei greu gan amrywiaeth o bobl – mae tîm heb amrywiaeth yn dîm gwan. Y bylchau sgiliau ym myd gwleidyddiaeth yw profiadau byw e.e. bod yn fenyw, anabledd, lleiafrifoedd ethnig. Rhaid i gynghorau fod yn falch o chwilio i lenwi'r bylchau hynny.*

2) **Yr Athro Sarah Childs** – Athro Gwleidyddiaeth a Rhywedd ym Mhrifysgol Royal Holloway ac aelod o'r Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol yn y Senedd

- *Cydymdeimlo’n fawr â llawer o'r hyn y mae Mary yn ei ddweud. Byddai cyfyngu ar nifer y swyddogion gweithredol yn y Bil yn fympwyol. Mae’r cyfanswm yn amherthnasol. Mae Mary yn llygad ei lle wrth awgrymu nad oes un ateb yn unig i ddiffyg amrywiaeth. Mae angen amgylchedd sy’n caniatáu hynny, gan gynnwys cwotâu. Mae Sarah yn dal i feddwl y ceir posibilrwydd o rannu swyddi o hyd ar gyfer pob rôl wleidyddol, nid swyddogion gweithredol yn unig. Mae angen edrych ar drais yn erbyn menywod ar y cyfryngau cymdeithasol a sut mae’r pleidiau yn trefnu. Mae'r Bil yn cynnig y posibilrwydd o gynlluniau peilot. Mae angen manteisio ar y rhain. Mae cyngor amrywiol yn gyngor da – nid yw pleidiau o reidrwydd yn meddwl fel hyn eto.*

- *Rhannu swydd – goddefgarwch. Er efallai nad yw gweithio'n rhan amser am hanner y cyflog yn ddeniadol i rai pobl, gallai wneud synnwyr i bobl eraill. Gan edrych ar Dŷ’r Cyffredin o safbwynt rhannu swyddi, pendronodd Sarah a fyddai’n annog mwy o fenywod i gymryd rhan. Yna dechreuodd feddwl mwy am bobl ag anableddau na fydd byth yn gallu gweithio swydd amser llawn o bosibl. Hawl ddemocrataidd sylfaenol i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth – efallai bod yn rhaid i rai pobl wneud hyn yn rhan-amser gan nad yw gweithio’n amser llawn yn bosibl. Gwleidyddiaeth yn cael ei hystyried yn faes 24/7 – ni fyddai am i hynny atal rhai pobl nad ydynt yn gallu gwneud hyn. Posibilrwydd o gynllun peilot ar gyfer rôl etholedig. Efallai yr hoffech osod terfyn ar gyfer hyn – rhoi cynnig arno yn yr ardal er mwyn i rai pobl gael rhywfaint o brofiad. Mae llawer o bobl yn dweud na fyddai'n gweithio ond nid ydym yn gwybod hynny gan nad yw wedi'i wneud na'i astudio.*

- *Cwotâu – lle mae awdurdodau lleol yn penderfynu newid y dull ethol – efallai y byddent am ailystyried y gwelliant – lle mae’n rhaid i ardal leol sy’n mynd i newid eu system etholiadol gynnal rhyw fath o archwiliad o’r effaith ar rywedd a chydraddoldeb – a all cynghorau ddangos beth arall sy'n mynd i ddigwydd er mwyn cyflwyno grŵp mwy amrywiol o bobl? Neu gallai gwelliant fod mor benodol â galw am ddefnyddio cwotâu. Mae angen ymrwymiad i newid, gyda phethau eraill ar waith. Mae’n bwysig ceisio clymu newid â chanlyniadau gwell o ran amrywiaeth. Mae hyn yn atgyfnerthu ‘mae cyngor amrywiol yn gyngor da’ (i gefnogi dadl Mary).*

- *Absenoldeb Mamolaeth/Tadolaeth/Rhiant – nid yw’r rhain yn y bil. I ba raddau y mae hynny ar waith yng Nghymru – dylid ymchwilio i hyn.*

- *Ym mhle ceir mwy o amrywiaeth – galluogi ymyriadau. Mae cyllid ar gael – y gronfa mynediad at swydd etholedig er enghraifft. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd – i ba raddau y bydd y rheini’n canolbwyntio ar grwpiau amrywiol o unigolion a chymunedau, i sicrhau*

*bod systemau newydd yn eu hadlewyrchu ac yn ymateb iddynt. Byddai'n ddefnyddiol darllen y bil yn fanwl. Sut y gallwn ni gysylltu â gwahanol rannau o'r bil i gynyddu amrywiaeth? Gofynnwch – a yw hyn yn siarad â menywod? Grwpiau eraill? Sut y gellir addasu hyn? Lle bydd lleoedd yn symud y systemau, i ba raddau y bydd angen hyfforddiant ar bleidiau gwleidyddol i wella?*

3) **Leena Farhat** – ymgeisydd, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, wedi'i lleoli yn Aberystwyth

- *Mae Leena yn bwriadu sefyll fel cynghorydd yng ngorllewin Cymru – ardal fwy gwledig o Gymru. Bydd yn cynnig ei henw i sefyll yn 2022 – os bydd yr etholiadau yn mynd yn eu blaenau. Rhaid gosod y sylfeini os ydych chi'n sefyll mewn etholiad. Ar ôl darllen y bil llywodraeth leol, gwnaeth yr hyn a oedd yn y bil argraff fawr arni. Roedd yn meddwl am sut y gall addasu'r system etholiadol effeithio ar y gwaith ar amrywiaeth a wnawn yng Nghymru i fenywod, a gwahanol fathau o amrywiaeth. Cofiodd, pan ddechreuodd y broses o gyflwyno ei henw ar gyfer yr etholiad, gwelodd ddyn oedd yn niwro-amrywiol yn cyflwyno ei enw, a sut y siaradodd yn angerddol am hynny. Roedd yn ergyd pan nad oedd yn llwyddiannus.*

- *Hefyd, nododd y diffyg sylw i famolaeth/tadolaeth. Tynnodd sylw at gyfrifoldebau gofalu eraill, a hoffai weld mwy o ddyraniad. Yn realistig, mae gan lawer o bobl gyfrifoldebau gofalu – p'un a ydyn nhw'n galw eu hunain yn ofalwyr ai peidio – a byddai'r cyfrifoldebau hyn yn cymryd amser allan o waith y cyngor. Gallai rhannu swydd eich galluogi i strwythuro'ch diwrnod.*

- *Rhaid i bob plaid wleidyddol gyfrannu at annog pobl i ddechrau arni – mae Leena hefyd yn cydnabod y nifer fawr o ymgeiswyr annibynnol yng Nghymru. Rhaid gwrthwynebu dadleuon gyda ffrindiau a theuluoedd ynghylch a fyddai gennych amser i sefyll. Does dim rheswm pam na allwch ofyn i blaid leol eich helpu chi – nid yn unig gydag arian ond gyda 'phethau gwirion' hefyd. Efallai bod modd gofyn a oes rhywun yno i helpu gyda chyfrifoldebau gofalu, fel y gall yr ymgeisydd/cynghorydd gynnal cymhorthfa ac ati.*

- *Beth yw'r rhwystrau mewn gwirionedd, a beth yw'r atebion tymor hir y gallwn eu rhoi ar waith i alluogi pobl i gynrychioli'r gymuned? Rydym wir yn brin o waith gosod sylfeini yng ngwleidyddiaeth Cymru. Mae cynnal adolygiad o amrywiaeth o fewn cyngor lleol yn bwysig dros ben, a gallai alluogi'r Bil i gael ei weithredu'n llwyddiannus iawn. Mae'r math hwnnw o ymchwiliad – sef yr hyn y mae angen i ni ei wneud yn well i gynyddu amrywiaeth – yn bwysig iawn.*

*Mae'r Cadeirydd, Siân Gwenllian AS, yn nodi bod yn rhaid i ni fel menywod ddweud wrth ein hunain weithiau 'cer amdani'. Gorfod gwthio'ch hun yn hytrach na dweud 'mae angen mwy o*

*fenywod arnom' heb wneud hynny ein hunain.*

**Trafodaeth:**

- *Gofynnodd aelod o'r gynulleidfa, sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o lywodraeth leol, pam bod newid yn cymryd cymaint o amser mewn llywodraeth leol. Mae hi'n byw yng Ngheredigion a nododd nad oes amrywiaeth ymysg ei chynghorwyr ei hun. Mae angen i'r system newid. Pe bai hi'n mynd ati, nid yw'n credu y gallai fynd yn bell iawn, gan fod y system mor gyfarwydd â gweithio mewn ffordd sy'n eithrio pobl.*

- *Ailadroddodd y Cadeirydd mai dyma'r cwestiwn y mae pob un ohonom yn ei ofyn. Dywedodd fod yn rhaid i ni gael cwotâu a mecanweithiau ar waith. Rhaid gwneud i'r newid ddigwydd. Gobeithio y gellir diwygio'r Bil i ychwanegu mwy o hynny ato. Mae gwir angen i ni wthio er mwyn sicrhau newid o'r fath. Os gallwn gael system gwota yng Nghymru, byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth enfawr – gallwn weld hynny mewn siroedd sy'n gwneud y gwaith. Rhaid sicrhau bod y fecanwaith yn rhan bendant ohono, gan fod yn rhaid i bethau ddigwydd wedyn.*

- *Dywedodd pobl eraill fod cyfranogiad mewn llywodraeth leol yn isel iawn. Nid oes llawer o bobl yn pleidleisio. Mae cynghorwyr newydd yn aml yn benderfynol o fynd ati i newid y system ac yn cael eu hatal yn gyflym iawn gan fiwrocratiaeth. Mae angen gwneud y system yn fwy hygyrch i bawb – croesawu'r rhannau o'r bil sy'n edrych ar hynny. Nid yw cael cyfansoddiad sydd wedi'i ysgrifennu mewn iaith syml yn ddigon. Rhaid gwneud gwaith allgymorth, a rhaid llenwi'r cyfarfod lleol ac ati. Nid yw cynghorau'n gwybod sut i estyn allan ac ymgysylltu â phobl. Gall cynrychiolaeth gyfrannol annog mwy o ddiddordeb. Mae 'pâr diogel o ddwylo' yn mynd i gael ei ethol, does dim pwynt pleidleisio. Ddim yn siŵr a fydd pleidlais sengl drosglwyddadwy yn gwneud llawer o wahaniaeth mewn wardiau bach ond gall wneud i bobl deimlo'n llai bod eu pleidlais yn ddibwrpas. Dewis un system – mae cael sawl system ar draws cynghorau yn ddryslyd.*

- *Soniodd Jackie Jones am gyfarfod Zoom a gynhaliwyd yn ddiweddar ar CEDAW a COVID-19: Sut olwg fyddai ar y byd pe bai CEDAW wedi cael ei weithredu gan y DU yn yr 80au. Byddai'n llawer mwy cyfartal. Mae CEDAW yn lasbrint ar gyfer sut y dylem fod yn trefnu ein cymdeithas. Gellid ei ddefnyddio. Sut olwg fyddai ar y byd pe bai'r wladwriaeth wedi gweithredu rhwymedigaeth gyfreithiol i gael gwared ar unrhyw rwystr sy'n atal menywod rhag cael cynrychiolaeth gyfartal yn y gymdeithas.*

- *Gofynnodd y Cadeirydd a oedd angen pleidlais sengl drosglwyddadwy cyn y gallem gael cwotâu. Dywedodd Sarah Childs y gellir dylunio cwota ar gyfer unrhyw system. Gall system gyntaf i'r felin fod yn llwyddiannus iawn gyda chwotâu. Yr Alban a Chymru – lle gwnaeth y pleidiau a oedd yn mynd i ennill ddewis eu menywod. Nid yw'n gywir i nodi'n*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

*syml nad yw'r system gyntaf i'r felin yn gweithio i fenywod ac y bydd cynrychiolaeth gyfrannol yn datrys problemau i fenywod – nid yw hyn yn wir.*

- *1997 – San Steffan – defnyddiodd y Blaid Lafur restrau byrion menywod yn unig, gyda menywod mewn seddi y gellir eu hennill. Yn yr Alban a Chymru, roeddent yn cael eu yn paru mewn seddi etholaethol. Menywod yn cael eu hethol lle'r oedd eu pleidiau yn gwybod eu bod yn mynd i ennill.*

- *Mae Sarah Childs yn credu bod angen cosbau ar systemau cwota. Gweriniaeth Iwerddon – cyllid yn gysylltiedig â chanran y menywod a etholwyd. Maint ardal. Os yw'ch plaid yn mynd i ennill un sedd a bod menyw bob amser yn ail ar y rhestr, ni fydd hi byth yn cael ei hethol. Am y rheswm hwn, mae'n fwy cymhleth i bleidiau llai. Mae angen etholaeth o faint penodol ond mae hefyd yn ymwneud â gwybod faint o seddi rydych yn mynd i'w hennill. Mae cymaint yn ymwneud â newid pleidiau. Mae angen rheolau i orfodi pleidiau sydd ag arferion o ddewis mathau penodol o ymgeiswyr (ymgeiswyr breintiedig, croengaled). Mae Sarah yn fwy argyhoeddedig bod angen newid rheol – mae'r ffon yn well na'r foronen.*

- Gofynnodd y Cadeirydd a oes lle yn y bil i fandadu pleidiau gwleidyddol. Dywedodd Sarah y gwelodd ymrwymiadau cyffredinol iawn. Roedd argymhellion y Panel Etholiadol yn benodol iawn. Dywedodd Sarah, os nad yw'n rhan amlwg o'r Bil, y bydd yn mynd yn ôl at ddeddfwriaeth ganiataol, e.e. caniatáu i'r Blaid Lafur ddefnyddio rhestr fer sy'n cynnwys menywod yn unig. Llawer mwy o blaid deddfwriaeth cwota rhagnodol.

- Dywedodd aelod o'r gynulleidfa fod diffyg tryloywder mewn llywodraeth leol. Nid yw tryloywder craidd wedi cael sylw mewn gwirionedd. Mae'r Bil hwn yn dangos ffyrdd clir iawn o sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus yn wirioneddol hygyrch, yn hytrach na chael ei rhoi ar-lein mewn ffordd sy'n gwbl anhygyrch.

- *Cytunodd Leena fod angen i bethau fod yn hygyrch. Rydym yn byw mewn cymdeithas amlieithog. Nid yw rhai o'n cymunedau yn siarad Saesneg na Chymraeg. Mae angen i ni ymestyn allan at bobl ym mhob cymuned. Nid yw'n syndod nad ydynt yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru. Efallai nad ydynt yn gwybod sut i wneud hynny, neu efallai nad ydynt yn gwybod beth yw cylch gwaith cynghorwyr. Mae'n rhaid i ni gofio hefyd ein bod yn dod â chenhedlaeth newydd o bleidleiswyr i'r etholiad nesaf – gyda phleidleisiau i bobl ifanc 16 ac 17 oed. Pan edrychwn ar sut rydym yn strwythuro gwybodaeth a chyfrifoldebau pleidiau, mae'n rhaid i ni gynnwys pawb, nid dim ond y rhai sydd am sefyll nawr.*

- *Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben: Mae gennym gyfle go iawn i ddylanwadu ar y ffordd rydyn ni'n gwneud gwleidyddiaeth yng Nghymru. Mae 28 y cant o gynghorwyr yn*

| |
|---|
| *fenywod. Mae'n hen bryd i hynny ddechrau newid – nid yn unig oherwydd ei fod yn gyfan gwbl annheg ond mae cael menywod yno yn beth da i fenywod ym mhobman. Os bydd menywod mewn rolau sy'n gwneud penderfyniadau, bydd yn rhoi sylw i'r materion sy'n ein hwynebu yn ein bywydau.*<br><br>• *Cadeiryddion i drafod anfon pleidlais at y Grŵp Trawsbleidiol ar bynciau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.* |
| ***Sylwadau o'r bwlch sgwrsio:***<br><br>• *Os yw'n opsiwn ac yn dibynnu ar bobl sydd eisiau newid eu system etholiadol yn lleol, ac mae angen iddynt gynnal archwiliad amrywiaeth, mae tebygolrwydd uchel y byddant yn dewis cadw at y drefn i gadw eu ffrindiau yn eu swyddi.*<br><br>• *Argymell sgwrs YouTube a llyfr gan Stephanie Kelton am gostau a buddion*<br><br>• *Ar hyn o bryd mae Sarah Childs yn gweithio ar ganllawiau newydd Seneddwragedd y Gymanwlad ar seneddau sy'n sensitif i rywedd - gall cynghorau neu'r cyngor 'model' fabwysiadu'r 'safonau' a'r rhestr wirio gysylltiedig i gofnodi'r hyn sydd o'i le ar y cyngor. Bydd yn anfon y rhain ymlaen - gallwch ddisgwyl iddynt gael eu cyhoeddi yn yr haf.*<br><br>o *Cwestiwn arall i'w ofyn am y Bil yw pa wersi a ddysgwyd wrth wneud addasiadau seneddol yn ystod y pandemig Covid-19 sy'n diwygio'r casgliadau yn y bil cyfredol.*<br><br>o *Nododd SC, yn ei barn hi, ymddengys bod llawer o'r 'problemau' gyda chyfranogiad rhithwir yn ôl pobl golwg yn deillio o hoffterau'r rhai sy'n hoffi cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth wyneb yn wyneb. Dyna ei syniadau ynghylch Senedd y DU, ond mae'n dychmygu eu bod yn dal dŵr mewn mannau eraill hefyd.*<br><br>o *llwybr arall i newid pleidiau yw rheoleiddio pleidiau, hynny yw gallai pa bynnag bleidiau sy'n elwa o'r wladwriaeth fod yn gysylltiedig â'r ganran o ymgeiswyr/cynghorwyr/Aelodau o'r Senedd sy'n fenywod*<br><br>• *Arferai cyfarfodydd y cyngor gael sylw mewn papurau newydd lleol yn rheolaidd, ond bellach mae'n eithaf anodd darganfod beth sy'n digwydd. Mae'n ymddangos bod llawer yn cael ei gyfyngu*<br><br>• *https://www.beacouncillor.wales/ – Yn ceisio egluro rôl a swyddogaethau cynghorwyr lleol i ysbrydoli pobl i gymryd rhan ac i sefyll.* |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

- *Codwyd pryderon ynghylch sut yr ydym yn addasu'r agenda dinasyddiaeth i'w gwneud yn gynhwysol i bobl ifanc*

**Camau i'w cymryd:**

- Bydd yr ysgrifennydd yn dosbarthu papur Mary Sherwood '*Job-Sharing Cabinet Positions in Swansea: Report to the Equalities, Local Government & Communities Committee "Diversity in Local Government" Inquiry';* ac adroddiad Menywod y Cenhedloedd Unedig*: 'A Primer for Parliamentary Action - Gender Sensitive Responses to COVID-19'*, y mae Sarah Childs wedi'i gyd-ysgrifennu

- Bydd y cadeiryddion a'r ysgrifennydd yn edrych ar bynciau ar gyfer y grŵp yn y dyfodol ac yn trafod sefydlu pleidlais i aelodau bleidleisio ar yr hyn maent yn teimlo y dylem ei drafod yn y dyfodol.

**Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yno a daeth â'r cyfarfod i ben am 15:00**